

**FFURFLEN YMGYNGHORI [WG 17869]****Diwygio Pennod 12 Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 21 (Gwastraff) i adlewyrchu ffactorau newydd sy'n ysgogi polisi gwastraff.**

Rydym eisiau clywed eich barn am y newidiadau arfaethedig i bolisi cynllunio gwastraff Llywodraeth Cymru

Anfonwch eich sylwadau erbyn **14 Mehefin 2013**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost i: **planconsultations-F@wales.gsi.gov.uk** neu ffoniwch: 029 2082 5731

Diogelu Data
<p>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych eisiau i'ch enw na'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, dan rai amgylchiadau, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.</p>

## FFURFLEN YMGYNGHORI

Diwygio Pennod 12 Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 21 (Gwastraff) i adlewyrchu ffactorau newydd sy'n ysgogi polisi gwastraff (Ymgynghoriad)

21 Mawrth - 14 Mehefin 2013

<b>Enw</b>	Kayna Tregay	
<b>Sefydliad</b>	Cyfoeth Naturiol Cymru	
<b>Cyfeiriad</b>	Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP	
<b>Cyfeiriad E-bost</b>	Kayna.tregay@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk	
<b>Math</b> ( <i>dewiswch un o blith yr isod</i> )	Busnesau	<input type="checkbox"/>
	Awdurdod Cynllunio Lleol	<input type="checkbox"/>
	Asiantaeth Llywodraeth/Sector Cyhoeddus arall	x <input type="checkbox"/>
	Cyrff Cyhoeddus/Grwpiau Buddiant	<input type="checkbox"/>
	Y sector gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, mentrau, cwmnïau cydweithredol, mudiadau crefyddol, mudiadau dielw).	<input type="checkbox"/>
	Eraill (grwpiau nad ydynt yn cael eu rhestru uchod)	<input type="checkbox"/>

**C1** A ydych yn cytuno bod y polisi cynllunio drafft (Polisi Cynllunio Cymru a TAN21) sy'n cael ei gynnig yn egluro'r cysylltiad rhwng y polisi cynllunio a'r amcanion, blaenoriaethau a thargedau gwastraff?

Cytuno'n llwyr	<input type="checkbox"/>
Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
Anghytuno	<input type="checkbox"/>
Anghytuno'n llwyr	<input type="checkbox"/>

**C1(b)** A oes unrhyw sylwadau pellach gennych?

Rydym yn croesawu'r cyfle i gyflwyno ein sylwadau at y bennod ddrafft o Bolisi Cynllunio Cymru a'r TAN cysylltiedig ar Wastraff. Rydym yn cytuno â rhan helaeth o'r testun, ond credwn y gellid ei wella cyn ei gwblhau'n derfynol fel a ganlyn:

- Pwysleisio ymhellach gwerth ymgysylltu'n agos ac yn gynnar â Cyfoeth Naturiol Cymru, yn y cam cynllunio a'r cam trwyddedu.

- Cydnabod ymhellach bwysigrwydd y cysylltiadau rhwng safleoedd gwarchoddedig a safleoedd gwastraff.
- Rhoi ystyriaeth briodol i ofynion Erthygl 14 o'r Gyfarwyddeb Effeithlonrwydd Ynni.
- Diwygio'r TAN i adlewyrchu'r ffaith y gall CNC helpu a chynorthwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol drwy ddarparu data a gwybodaeth am wastraff, ond byddai'n gyndyn o ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros 'gymeradwyo' Aseidiadau Cylch Bywyd unigol.
- Egluro y dylai Aseidiadau Cynllunio Gwastraff arfaethedig ei gwneud hi'n ofynnol i ymgeiswyr esbonio *sut* y maent wedi ystyried yr hierarchaeth wastraff.
- Cyfeirio'n briodol at ofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Crynodeb o'n prif bwyntiau yw hwn. Rydym yn ymhelaethu arno yn ein hatebion i'r cwestiynau dilynol.

**C2(a)** A ydych yn cytuno y bydd y polisi cynllunio drafft sy'n cael ei gynig yn effeithiol o ran nodi lleoliadau addas ar gyfer gwaredu gwastraff trefol cymysg a gwaith adennill?

Cytuno'n llwyr

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno

Anghytuno'n llwyr

<b>C2(b)</b>	A ydych yn cytuno y bydd y polisi cynllunio drafft sy'n cael ei gynnis yn effeithiol wrth hwyluso'r gwaith o sicrhau rhwydwaith ddigonol ac integredig o seilwaith gwastraff trefol cymysg?	
	Cytuno'n llwyr	<input type="checkbox"/>
	Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
	Anghytuno	<input type="checkbox"/>
	Anghytuno'n llwyr	<input type="checkbox"/>

<b>C3</b>	A ydych yn cytuno bod Nodyn Cyngor Technegol 21 yn rhoi canllawiau clir ar sut y gall yr awdurdod cynllunio lleol ystyried y ddarpariaeth ar gyfer pob math o seilwaith a chyfleusterau gwastraff ar adeg pan fo dulliau casglu a rheoli gwastraff yn esblygu?	
	Cytuno'n llwyr	<input type="checkbox"/>
	Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
	Anghytuno	<input type="checkbox"/>
	Anghytuno'n llwyr	<input type="checkbox"/>

<b>C3(b)</b>	A oes unrhyw sylwadau pellach gennych?
<p>Darpariaeth ar gyfer safleoedd gwastraff mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI)</p> <p>Nodwn fod y bennod ddrafft o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi'r canlynol: <i>“the identification of suitable locations for such development should be considered as part of plan preparation, recognising that the most appropriate locations will be those with the least adverse impact on the location population and the environment and with the best potential to contribute to a broad infrastructure framework”</i> (PCC drafft para 12.6.2). Rydym yn croesawu hyn.</p> <p>Nodwn fod paragraffau 3.21 – 3.28 y TAN drafft yn rhoi rhagor o fanylion am CDLI a gwastraff. Rydym yn croesawu'r cyfeiriadau canlynol:</p> <p><i>“Many general employment sites and major industrial areas are likely to be suitable locations for the new generation of waste facilities [...]”</i> (para 3.22).</p> <p><i>“As part of allocating employment land, local planning authorities should indicate where suitable and appropriate sites exist for the provision of all types of waste management facilities in order to provide some certainty for waste operators interested in fulfilling demand in an area”.</i> (para 3.25).</p> <p>Nodwn fod lle hefyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol glustnodi mathau penodol o gyfleusterau ar gyfer safleoedd penodol (para 3.26), er nad oes gofyniad i Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud hynny.</p> <p>Credwn fod y polisi hwn yn ddigon cryf i sicrhau bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer safleoedd gwastraff yn eu CDLI.</p> <p><b>Olrhain cyfochrog</b></p> <p>Rydym yn cefnogi'r cyfeiriadau yn y polisi drafft at olrhain ceisiadau cynllunio a thrwyddedau yn gyfochrog (er</p>	

enghraifft, PCC drafft Pennod 12, para 12.7.4). Credwn y dylai'r testun egluro fod olrhain cyfochrog fwyaf priodol ar gyfer ceisiadau mawr neu gymhleth. Bydd hefyd yn arbennig o ddefnyddiol lle mae goblygiadau amgylcheddol arbennig, fel effaith ar aer, dŵr a rhywogaethau gwarchoddedig. Cyn creu CNC, cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ganllawiau ar ei dull gweithredu mewn perthynas â chynllunio a thrwyddedu. Mae egwyddorion y canllawiau'n berthnasol o hyd i ddull gweithredu CNC. Mae'r canllawiau ar gael ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd [www.environment-agency.gov.uk](http://www.environment-agency.gov.uk)

**Rydym yn argymhell:** Dylid newid llinell olaf para 12.7.4 y PCC drafft fel a ganlyn: *“For major or complex applications, it will be good practice to undertake parallel tracking of planning and environmental permitting applications. A project team approach can help coordinate a parallel tracking process.”*

**Cyd-leoli cyfleusterau**

Rydym yn croesawu'r cyfeiriadau at gyd-leoli cyfleusterau gwastraff gyda defnyddwyr gwres ac ynni fel bod modd defnyddio gwres ac ynni gwastraff o'r broses losgi (er enghraifft, TAN 21 drafft, paragraffau 2.8.4 a 5.16). Fodd bynnag, gan fod cyfleusterau gwastraff yn rhyddhau allyriadau i'r aer fel rheol, ac yn aml yn cael eu gweld fel rhywbeth negyddol gan gymunedau, mae angen eu lleoli'n ofalus. Felly mae angen ystyried wrth leoli cyfleusterau a allai ddefnyddio ffynonellau gwres ac ynni gwastraff yn y dyfodol, ac nid dim ond ystyried darparwyr ynni o'r fath. Mae'n bosibl y bydd dolenni perthnasol i ofynion mewn perthynas ag Erthygl 14 o'r Gyfarwydddeb Effeithlonrwydd Ynni (2012/27/EU). Yn ôl Erthygl 14:

*“By 31 December 2015, Member States shall carry out and notify to the Commission a comprehensive assessment of the potential for the application of high-efficiency cogeneration and efficient district heating and cooling [...]”*

**Rydym yn argymhell:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y TAN 21 newydd yn cyd-fynd â gofynion y Gyfarwydddeb Effeithlonrwydd Ynni drwy roi ystyriaeth briodol i ofynion Erthygl 14.

**C4(a)** A ydych yn cytuno gyda'r cynnig i gadw isafswm o ofod mewn safleoedd tirlenwi ym mhob rhanbarth (gogledd, de orllewin a de ddwyrain), sy'n gysylltiedig â throthwy penodol?

Cytuno'n llwyr

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno

Anghytuno'n llwyr

**C4(b)** A ydych yn cytuno y dylai'r trothwy hwn fod yn seiliedig ar nifer y blynyddoedd o ofod gwag sydd ar gael i storio gwastraff? Os nad ydych, beth ddylid ei ddefnyddio yn lle hynny?

Ydyn. Credwn y byddai hyn yn briodol. Rydym o'r farn y byddai gwerth 8 mlynedd o ofod yn ddigon o amser i ganfod a datblygu gofod tirlenwi newydd, yn unol â'r testun a gynigir ym mharagraffau 3.16 a 3.17.

Nodwn fod paragraff 3.18 yn nodi y dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol arweiniol ar ran awdurdodau cyfansoddol rhanbarthol ddewis isafswm o 2 safle priodol ar gyfer cyfleuster tirlenwi, ar ôl cyrraedd trothwy.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r TAN yn egluro pam mae angen nodi 2 safle. Hwyrach y byddai'n fwy effeithiol nodi prinder mewn gofod tirlenwi drwy adolygiad CDLl a monitro. Bydd hyn yn sicrhau nad yw safleoedd a nodir yn arwain at sterileiddio tir. Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol allu defnyddio gwybodaeth a chyngor amgylcheddol gennym ni i bennu a yw safleoedd yn ddichonadwy ac felly helpu

Cynlluniau i brofi eu bod yn gadarn.

**Rydym yn argymhell:** Dylai'r testun ym mharagraff 3.18 egluro pam mae angen canfod dau safle. Yn ogystal â'n sylwadau uchod, nodwn fod paragraff 3.18 yn nodi y dylai safleoedd gael eu nodi gyda chymorth CNC ("with the support" yn y testun). Credwn y byddai'n gliriach dweud "in early consultation with". Gall CNC roi data a chyngor amgylcheddol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w helpu i ddewis ei safleoedd.

**Rydym yn argymhell:** Dylid newid brawddeg gyntaf paragraff 3.18 y TAN drafft i fod yn "[...] and in early consultation with [...] NRW".

**C4(c)** O ran safleoedd gwag i storio gwastraff, sawl blwyddyn yw'r trothwy mwyaf priodol yn eich barn chi – [6,8 neu10]?

6 Blynedd

8 Mlynedd

10 Mlynedd

Arall

.....

**C5** A ydych yn cytuno gyda'r argymhellion ynghylch cynhyrchu'r Adroddiadau Monitro Blyneddol gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol mewn cydweithrediad â Cyfoeth Naturiol Cymru?

Cytuno'n llwyr

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno

Anghytuno'n llwyr

**C6** A ydych yn cytuno y bydd yr Asesiad Cynllunio Gwastraff yn cynorthwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol i weld sut y gallai'r datblygiad arfaethedig gyfrannu at gyflawni amcanion gwastraff Cymru, a nodwyd yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff Ddiwygiedig, Tuag at Ddyfodol Diwastraff ac yn y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd?

Cytuno'n llwyr

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno	<input type="checkbox"/>
Anghytuno'n llwyr	<input type="checkbox"/>

**C7** Pa ganllawiau pellach, os o gwbl, yr hoffech chi eu gweld yn y polisi cynllunio drafft sy'n cael ei gynnig?

**Asesiadau Cynllunio Gwastraff**

Rydym yn croesawu cyflwyno Asesiadau Cynllunio Gwastraff, fel y cyfeirir atynt yn y TAN21 drafft, paragraff 4.2 ac Atodiad B y TAN drafft. Rydym yn croesawu hefyd y ffaith bod angen i ymgeiswyr gymryd rhan mewn trafodaethau cyn-ymgeisio gyda CNC (Atodiad B, paragraff 1<sup>af</sup>).

Rydym yn croesawu'r ffaith bod Asesiadau Cynllunio Gwastraff yn ei gwneud hi'n ofynnol i ymgeiswyr lofnodi datganiad yn cadarnhau bod eu datganiad yn nodi fod yr hierarchaeth wastraff wedi'i hystyried. Fodd bynnag, er mwyn i'r asesiadau roi asesiad ystyrlon o sut mae'r ymgeisydd wedi ystyried yr hierarchaeth wastraff wrth lunio'i gynigion, credwn fod angen i'r Asesiadau Cynllunio Gwastraff fod yn glir bod gofyn i ymgeiswyr egluro *sut* maent wedi ystyried yr hierarchaeth wastraff ac elfennau eraill, er enghraifft, materion amgylcheddol sensitif, wrth lunio a pharatoi eu ceisiadau cynllunio. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ystyriaeth briodol o'r egwyddorion a geir yn y TAN.

**Rydym yn argymhell:** O dan y pennawd "Waste Policy Statement" yn Atodiad B y TAN 21 drafft, dylid ychwanegu'r pwynt bwled canlynol, "An explanation of how the applicant has complied with the waste hierarchy".

**Rydym yn argymhell:** Dylai pennod 12 Polisi Cynllunio Cymru gyfeirio hefyd at yr angen am Asesiadau Cynllunio Gwastraff. Nodwn fod paragraff 4.2 y TAN drafft yn nodi y **dylai** ymgeiswyr ddarparu Asesiad Cynllunio Gwastraff, tra bod yr ail baragraff yn Atodiad B yn nodi "it will be necessary for applicants to provide a Waste Planning Assessment". Byddai geirio cyson yn ei gwneud hi'n glir bod gofyn i ymgeiswyr ddarparu Asesiad Cynllunio Gwastraff.

**Rydym yn argymhell:** Dylai paragraff 4.2 o'r TAN drafft gael ei ddiwygio fel ei fod yn datgan, "it will be necessary for applicants to provide a Waste Planning Assessment".

Nodwn nad oes unrhyw sôn yn Atodiad B am ystyriaethau amgylcheddol, megis mesurau i ystyried yn llawn safleoedd gwarchoddedig, rhywogaethau, adfer ti halogedig, ansawdd aer ac ansawdd dŵr. Rydym yn argymhell y dylid cyfeirio atynt dan yr adran ar amwynder a niwsans, neu fod adran newydd ar faterion amgylcheddol yn cael ei chynnwys. Fel arall, gellid cynnwys nodyn yn Atodiad B yn cyfeirio ymgeiswyr at Atodiad C i sicrhau eu bod wedi ystyried y materion hyn.

Nid yw Atodiad B yn cyfeirio at sut y dylai'r wybodaeth yn yr Asesiad Cynllunio Gwastraff gael ei hystyried ochr yn ochr â gwybodaeth a ddarperir mewn unrhyw Asesiad o Effaith Amgylcheddol sy'n cydfynd â'r cais neu asesiadau amgylcheddol eraill a gyflwynir i gefnogi'r cais.

**Rydym yn argymhell:** Cynnwys testun i fynd i'r afael â'r ddau bwynt uchod.

**Ystyriaethau cynllunio**

Rydym yn croesawu Atodiad C o'r TAN drafft, sy'n nodi'r ystyriaethau cynllunio sy'n berthnasol i bob cynnig ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff. Rydym yn argymhell gwella geiriad Atodiad C fel a ganlyn:

**Paragraffau 1.1-1.6 Atmospheric emissions:**

Gan gyfeirio at baragraff 1.6, rydym yn cytuno â'r canlynol: "the overall emissions of waste management facilities can be reduced by the co-location of facilities at nodal points [...]". Fodd bynnag, gallai crynhoi allyriadau mewn un lleoliad achosi effeithiau lleol cronuss hefyd. Er enghraifft, gallai crynhoi cyfleusterau ger safleoedd gwarchoddedig olygu bod allyriadau aer yn cael effaith andwyol sylweddol ar nodweddion safleoedd o'r fath a bod yn niweidiol i'w cyfanrwydd (fel y diffinnir yn TAN5).

Gall cyfleusterau rheoli gwastraff gynhyrchu llygredd gwasgaredig, o symudiadau gwastraff a chludiant, er

enghraifft. Dylid ystyried hyn fel rhan o'r broses gynllunio, a chynnwys mesurau lliniaru priodol.

**Rydym yn argymhell:** Dylid cynnwys testun i gwmpasu'r pwynt hwn.

**Paragraffau 8.1- 8.3 Nature and archaeological conservation:**

**Rydym yn argymhell:** Dylid newid paragraff 8.1 i gyfeirio at Geoamrywiaeth hefyd.

Rydym yn nodi ac yn croesawu'r cyfeiriad yn TAN5 ym mharagraff 4.30 mewn perthynas ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a buddiant cadwraeth natur. Fodd bynnag, nodwn nad oes esboniad yn y TAN drafft am y gofynion deddfwriaethol ar gyfer tirweddau gwarchoddedig. Gellid cynnwys hyn ym Mharagraff 8.2 o Atodiad C.

**Rydym yn argymhell:** Dylid ehangu paragraff 8.2 o TAN21 drafft i gynnwys y croesgyfeiriadau perthnasol i Bolisi Cynllunio Cymru (Pennod 5) a TAN5, sy'n egluro'r lefel o warchodaeth a roddir i'r dynodiadau a nodir ym mharagraff 8.2.

**Paragraff 11.1-11.5 Protection of surface and groundwater:**

Rydym yn cynghori y dylai'r adran hon gyfeirio at ofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.

**Rydym yn argymhell:** Dylid ychwanegu testun at ddiwedd paragraff 11.1 i nodi'r canlynol: "Applicants and LPAs should consider whether a proposed development would have the potential to cause deterioration in the ecological status of a waterbody, or prevent compliance with the Water Framework Directive. They should also consider whether the development has the opportunity to improve and enhance ecological and chemical status of a waterbody."

**Rydym yn argymhell:** Dylai paragraff 11.4 egluro y dylai datblygiadau arfaethedig ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff sydd â'r potensial i halogi tir, neu ar dir sy'n cael ei effeithio gan halogiad, gael eu datblygu yn unol â chanllawiau yn cynnwys: "Groundwater Protection: Principles and Practice" (GP3) a mapiau natur agored i niwed dyfrhaen dŵr daear Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r rhain ar gael ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd [www.environment-agency.gov.uk](http://www.environment-agency.gov.uk). Er mai dogfennau Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r rhain, mae'r canllawiau ynddynt yn cyd-fynd â chynghor CNC. Bydd canllawiau a mapiau CNC ar gael yn y pen draw.

Ein cynghor ni yw na fyddai risg seismolegol yn ffactor wrth leoli cyfleusterau gwastraff, oherwydd ni fyddai unrhyw ddaeargryn yng Nghymru yn ddigon mawr i effeithio ar gyfleusterau gwastraff.

**Rydym yn argymhell:** Dylid dileu'r cyfeiriad at risg seismolegol ym mharagraff 11.4 o'r TAN drafft. Dylai paragraff 11.2 gyfeirio at ein cynghor ar leoli safleoedd tirlenwi. Nodir hwn yn Position Statement E yn y ddogfen Groundwater Protection: Principles and Practice (GP3), Tachwedd 2013 Fersiwn 1. Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ac ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod natur y dŵr daear a dŵr wyneb mewn rhai ardaloedd o Gymru yn eu gwneud yn anaddas ar gyfer safleoedd tirlenwi newydd ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus.

**Rydym yn argymhell:** Dylid ychwanegu testun i adlewyrchu'r pwynt uchod.

**Rydym yn argymhell:** Dylid diwygio paragraff 11.4 i fod fel a ganlyn (ychwanegiadau a awgrymir wedi'u tanlinellu): Waste management facilities with any potential to contaminate soils or groundwater should be located on preferred sites with natural geological advantages, such as low permeability deposits and sites which are geotechnically stable. Groundwater vulnerability maps available from NRW will help in choosing suitable locations. Sites that are proposed in groundwater Source Protection Zone 1 areas are particularly sensitive and proposed developments in these areas should be discussed with NRW at the earliest opportunity. There is further advice from NRW on the siting of waste facilities and requirements to protect the environment in Position Statement F of their Groundwater Protection documents (GP3).

**Paragraffau 12.1- 12.2 Flood Risk**

Dylid diwygio paragraff 12.1 fel ei fod yn adlewyrchu gofynion TAN15 yn well. Mae'r testun drafft yn nodi bod cynigion i leoli cyfleusterau mewn ardaloedd lle nad oes seilwaith amddiffyn rhag llifogydd ar hyn o bryd yn annhebygol o fod yn dderbyniol. Mae TAN15 hefyd yn nodi bod dal i fod angen i'r Awdurdod Lleol gyfiawnhau cyfleusterau mewn ardaloedd sy'n cael eu hamddiffyn (yn unol ag Adran 6 o TAN15). Mae safleoedd gwaredu gwastraff yn cyfrif fel datblygiad agored iawn i niwed dan TAN15.

**Rydym yn argymhell:** Dylid cynnwys y testun isod yn lle paragraff 12.1:

"Waste management facilities proposed in areas at risk of flooding, without flood defence infrastructure, are



unlikely to be acceptable. Facilities proposed in areas at risk of flooding served by flood defence infrastructure, will only be permitted if they can be justified by the Local Planning Authority. TAN15 (Development and Flood Risk) sets out further policy and advice on flood risk (including fluvial, coastal and surface water flooding).

NRW can provide further advice to LPAs and to applicants on elements of TAN15, such as the management of consequences of flood risk.”

Mae paragraff 12.2 yn cyfeirio at dirlenwi neu dirgodi, nid y perygl o lifogydd, fel sydd yn nheitol adran 12.

**Rydym yn argymhell:** Dylid gosod paragraff 12.2 i ddilyn paragraff 11.2.

**Paragraffau 16.1-16.2 Planning Conditions**

Fel y pwysleisiwyd yn y TAN drafft, mae'n bosibl y bydd rheolaethau cynllunio a thrwyddedu yn gorgyffwrdd. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r adran hon yn pwysleisio y dylai amodau cynllunio ganolbwyntio ar faterion sydd y tu hwnt i reolaeth unrhyw drwyddedau sydd eu hangen o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol neu ddeddfwriaeth arall. Er enghraifft, gall trwydded reoli gollyngiadau i ddŵr, tir neu'r aer o osodiad ei hun, tra gallai amod cynllunio gynnwys dŵr ffo o feysydd parcio a ffyrdd mynediad.

Mae'r ail bwynt bwled ym mharagraff 16.1 yn cyfeirio at drwyddedau rheoli gwastraff a thrwyddedau PPC. Mae'r ddau fath o drwydded wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (2010).

**Rydym yn argymhell:** Dylid diwygio'r testun i adlewyrchu'r ddau bwynt hwn.

**C8**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

**Asesiad cylch bywyd**

Cyfeiriwn at baragraff 4.5 am Asesiad Cylch Bywyd, sy'n awgrymu'r canlynol: "planning authorities should draw on the expertise in NRW to assist with evaluating the LCA". Byddem yn falch o gynorthwyo Awdurdodau Lleol gydag asesiadau cylch bywyd. Gallai hyn gynnwys rhoi hyfforddiant a chyngor cyffredinol iddynt. Rydym eisoes wedi cynorthwyo'r Adolygiad Cyntaf o Gynlluniau Gwastraff Rhanbarthol gydag asesiadau cylch bywyd drwy gynnal asesiad rhanbarthol ar gyfer y tri rhanbarth. Fel y gwyddoch, ariannwyd hyn gan y Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi darparu cymorth tebyg i Lywodraeth Cymru i lywio datblygiad ei Strategaeth Wastraff. Unwaith eto, ariannwyd hyn gan gyllid prosiect sydd wedi dod i ben erbyn hyn.

Fodd bynnag, byddem yn gyndyn o ysgwyddo'r cyfrifoldeb o 'gymeradwyo' pob asesiad cylch bywyd unigol a gyflwynir i gefnogi ceisiadau cynllunio, neu baratoi asesiadau ein hunain. Ni chredwn fod gennym yr adnoddau i wneud hyn ar hyn o bryd, yn seiliedig ar flaenoriaethau cyfredol y busnes.

**Rydym yn argymhell:** Dylid newid testun paragraff 4.5 i adlewyrchu'r ffaith y bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cynnal ac yn adolygu unrhyw asesiadau cylch bywyd angenrheidiol, a bydd CNC yn rhoi cyngor a chymorth pan fydd angen.

**Gwasanaethau ecosystem**

Rydym ar ddeall bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull rheoli ar lefel yr ecosystem. Mae'n ymddangos nad oes unrhyw sôn am ddull o'r fath yn y TAN drafft, a chredwn fod hyn yn enghraifft o golli cyfle. Deallwn fod Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu opsiynau ar gyfer Cynllunio Rheoli Adnoddau Naturiol, gan ddefnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem. Byddai dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn darparu sail dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol a allai helpu i gyflwyno manteision lu a llywio'n well benderfyniadau ar leoliad priodol seilwaith allweddol, yn cynnwys rhwydwaith o gyfleusterau rheoli gwastraff (er enghraifft, yn rhanbarthol). Byddai deall systemau amgylcheddol a'u hiechyd, ynghyd â'r gwasanaethau mae'r rhain yn eu cynnig i gymdeithas a'r economi, yn helpu i gyfeirio datblygiadau i'r lleoliadau mwyaf addas (hynny yw, lle mae'r amgylchedd yn gallu ymdopi â'r math hwnnw o ddatblygiad). Gall trafod â CNC ar ddechrau'r camau cyn-ymgeisio helpu i alluogi dull gweithredu o'r fath.

**Trafodaethau cyn-ymgeisio**

Credwn y gallai'r TAN drafft bwysleisio ymhellach bwysigrwydd trafodaethau cyn-ymgeisio cynnar rhwng CNC, yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r datblygwyr o ran helpu i alluogi'r datblygiad cywir yn y man cywir. Nodwn fod sôn am hyn yn Atodiad B (paragraff 1<sup>af</sup>), ond credwn y gellid ei gynnwys ym mhrif gorff y TAN.

**Rydym yn argymhell:** Dylid ychwanegu brawddeg at ddiwedd paragraff 4.25 i nodi, "*Developers should also undertake pre-application discussions with NRW at the earliest opportunity, keeping the LPA informed*".

**Materion eraill**

Rydym yn cefnogi'r angen am gydweithio rhanbarthol, fel y nodir ym mharagraffau 3.5 i 3.8 a 3.21. Fodd bynnag, credwn y byddai'n ddefnyddiol i'r TAN roi ambell i ganllaw ar sut bydd y grwpiau rhanbarthol yn cael eu nodi. Ai drwy'r rhanbarthau neu ffiniau cynllunio gwastraff rhanbarthol neu gonsortia ar gyfer seilwaith gwastraff gweddilliol arferol, neu gydweithio gwirfoddol ad hoc?

**Rydym yn argymhell:** Dylid ychwanegu testun at baragraff 3.5 yn egluro sut bydd grwpiau rhanbarthol yn cael eu nodi. Nodwn y cyfeiriad at adolygiadau cyntaf o Gynllun Gwastraff Rhanbarthol ym mharagraff 3.19 y TAN drafft. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r TAN yn egluro statws y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol, er enghraifft, yr agweddau sy'n berthnasol o hyd i gynllunio ac a fydd Ardaloedd Chwilio yn cael eu diweddarau yn sgil newidiadau ar lawr gwlad ai peidio.

**Rydym yn argymhell:** Dylid ychwanegu testun i egluro statws y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol. Credwn y dylid newid geiriad paragraff 3.30 i esbonio mai rôl Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw tynnu sylw at faterion amgylcheddol penodol i helpu i lywio'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ddewis y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau.

**Rydym yn argymhell:** Dylid ail-eirio brawddeg gyntaf paragraff 3.30 y TAN drafft i ddatgan: "*There are numerous factors that may influence the type of location ~~for~~ new waste management facilities and which local planning authorities should consider as part of preparing local development plans. The Strategic Environmental Assessment and Habitats Regulations Assessment of the LDP should help the authority in the process of selecting suitable sites.*"

Gan gyfeirio at yr ail bwynt bwled ym mharagraff 3.30, gallai dichonoldeb datblygu chwareli gael ei ddylanwadu hefyd gan bresenoldeb rhywogaethau a chynefinoedd gwarchoddedig, a geoamrywiaeth.

**Gweler drosodd am sylwadau pellach:**

**Ein hymateb i Gwestiwn 8 - parhad**

**Rydym yn argymhell:** Yn yr ail bwynt bwled ym mharagraff 3.30, dylid ychwanegu'r frawddeg ganlynol ar ôl "quarry depth", "*the presence of protected species and habitats, geodiversity*". Rydym yn croesawu'r cyfeiriad yn y ddau bwynt bwled olaf ond un ym mharagraff 3.30 at effeithiau cronus cyfleusterau rheoli gwastraff. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r testun yn egluro hefyd y dylai effeithiau cyfunol gael eu hystyried gan brosesau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Asesiad o Effaith Amgylcheddol hefyd, lle bo'n berthnasol.

**Rydym yn argymhell:** Dylid ychwanegu testun at y pwynt bwled olaf ond un ym mharagraff 3.30 i nodi y bydd angen i brosesau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Asesiad o Effaith Amgylcheddol ystyried effeithiau cyfunol, lle bo'n berthnasol. Gan gyfeirio at baragraff 4.30, fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r Rheoliadau Cynefinoedd wedi'u disodli gan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau 2012), ac mae swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru bellach yn cael eu cyflawni gan CNC ers cyhoeddi TAN5. Byddai'n ddefnyddiol egluro hyn yn y testun.

**Rydym yn argymhell:** Dylai paragraff 4.30 gynnwys paragraff i nodi, "*Developers should discuss with NRW at the earliest opportunity projects that would be likely to have a significant effect on the features of a European site. If there is a likelihood of significant effects, or where it cannot be demonstrated that there will not be any significant effects, an appropriate assessment must be undertaken by the competent authority to ensure that the project will not have an adverse effect on the integrity of the protected site. The developer is advised to provide all information requested to the competent authority for this purpose. Further detail is provided in Chapter 5 of PPW and TAN5.*"

Mae nifer o chwareli wedi'u dynodi'n SoDdGA daearegol. Yn ogystal, mae nifer o chwareli yn agos at safleoedd gwarchodedig a lle mae cysylltiadau dŵr daear pwysig rhwng y safle a'r chwarel. Dylai paragraff 3.30 felly gydnabod pwysigrwydd y cysylltiadau rhwng chwareli a buddiannau gwarchod natur y tu hwnt i'r chwarel.

**Rydym yn argymhell:** Dylai paragraffau 3.30 a 4.30 gyfeirio at y ffaith bod nifer o chwareli wedi'u dynodi'n SoDdGA daearegol. Dylid ychwanegu testun at baragraffau 3.30 a 4.30 i adlewyrchu'r uchod.

Rydym yn croesawu'r cyfeiriad yn y ddau bwynt bwled olaf ond un ym mharagraff 3.30 at effeithiau cyfunol cyfleusterau rheoli gwastraff. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r testun yn esbonio hefyd y dylai effeithiau cyfunol gael eu hystyried gan brosesau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

**Rydym yn argymhell:** Dylid ychwanegu testun at y pwynt bwled olaf ond un ym mharagraff 3.30 i nodi y bydd effeithiau cyfunol yn cael eu hystyried gan yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, lle bo'n berthnasol.

**Sylwadau ychwanegol ar Gwestiwn 5:**

Nodwn fod paragraff 3.10 o'r TAN drafft yn nodi ein bod ni'n cynnig gwybodaeth am y math o wastraff a chyfanswm y gwastraff sy'n cael ei drafod gan gyfleusterau rheoli gwastraff trwyddedig yng Nghymru. Nodwn fod y TAN drafft yn dweud y bydd y wybodaeth hon yn rhoi sail dystiolaeth ar gyfer adroddiadau monitro blynyddol Awdurdodau Cynllunio Lleol. Credwn y gallem gynorthwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol i baratoi eu Hadroddiadau Monitro Blynyddol.

Hoffem wneud y sylwadau canlynol ynglŷn â pharagraff 3.12.

- Rydym yn cwstiyu'r angen i gasglu data am safleoedd tirlenwi sydd wedi cau fel rhan o unrhyw ragolygon o gapasiti. Os yw safleoedd ar gau, mae'n bosibl eu bod yn nesáu at ildio'u trwydded, ac felly nid ydynt yn rhan ddefnyddiol o unrhyw ragolygon o gapasiti.
- Mae'n ymddangos bod y trydydd pwynt bwled yn ailadrodd gofynion y pwynt bwled cyntaf a'r ail un. Ni chredwn fod angen casglu data ar gyfer safleoedd y gwnaed cais ar eu cyfer (ac

a wrthodwyd). Mae hyn oherwydd y gallai ceisiadau gael eu gwrthod neu eu tynnu'n ôl, ac felly ni fyddant yn rhan o'r rhagolygon o gapasiti.

- Mae'r pumed pwynt bwled yn ailadrodd elfennau o bwyntiau bwled 1 a 2.

**Cyfrinachedd**

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi - ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch:

**Sut i ymateb**

Anfonwch eich sylwadau erbyn 14 Mehefin 2013 drwy un o'r ffyrdd canlynol:

E-bost	Post
Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i: <a href="mailto:planconsultations-F@wales.gsi.gov.uk">planconsultations-F@wales.gsi.gov.uk</a> [Nodwch ' Adolygiad Gwastraff TAN21' fel y pwnc]	Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i: Adolygiad Gwastraff TAN21 (Ymgynghoriad) Y Gangen Polisi Cynllunio, Yr Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

**Gwybodaeth ychwanegol**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn,  
 E-bostiwch: [planconsultations-F@wales.gsi.gov.uk](mailto:planconsultations-F@wales.gsi.gov.uk) neu ffoniwch James Hooker ar 029 2082 5731